Dylem gynnal Wythnos SHAG blynyddol

Pasiwyd gan: Y Senedd

Pasiwyd ar: 24/04/2023

Yn darfod ar: **24/04/2026**

Manylion

Eleni, fe gynhaliwyd Wythnos SHAG fel rhan flaenoriaethau'r Llywydd. Gwelwyd nifer dda o bobl yn dod I'r digwyddiadau a chawsom adborth arbennig. Cawsom hefyd rai adborth negatif gyda rhai myfyrwyr yn mynegi nad oeddent yn hapus y cynhaliwyd yr wythnos hon.
Nod yr wythnos hon yw magu perthynas iach tuag at ryw os ydych chi am ei gael neu beidio ac i gadw'n ddiogel wrth ei wneud neu'n trio pethau newydd.
Oherwydd yr adborth negatif hwn, rydym am glywed barn y myfyrwyr. Rydym eisiau gwybod ai digwyddiad defnyddiol a hwyl yr hoffai myfyrwyr ei weld bob blwyddyn, gan ei ddatblygu yn fwy bob tro, neu ai digwyddiad untro ddylai fod.
Dysgu mwy am yr Wythnos SHAG 2022 yma:
https://www.umaber.co.uk/newidaber/ymgyrchoedd/wythnosshag/

Cyflwynwyd gan: Aisleen Sturrock

Diweddariadau

Camau a gymerwyd	**Enw a Rôl**	**Dyddiad**
Mae'r polisi hwn yn cael ei weithio trwy ymgyrch. Edrychwch ar dudalen yr ymgyrch yma.	**Cydlynydd Ymgyrchoedd a Democratiaeth**	Tachwedd 2023
Roedd ein hwythnos SHAG eleni yn canolbwyntio ar ddychwelyd at y pethau sylfaenol, gan sicrhau bod gan bawb ddealltwriaeth dda o ryw diogel a chydsyniol. Roeddem yn dal i gadw ein ffefrynnau cymunedol o'n Gweithdy Cliterarty a'n gweithdy Kink Safety.	Helen (Llesiant 2023-2024)	Tachwedd 2023
Fe wnaethom gynnal wythnos SHAG arall eleni a rhoi tro newydd ar ein cwis secsi gydag ychydig o wisgoedd newydd. Mae gennym wisgoedd fwlfa, pidyn a chondom a byddwn yn defnyddio'r rhain at helpu hyrwyddo atal cenhedlu. Cawsom stondinwyr lleol a rhoddwyd arddangosfa gelf 'y wal fwlfa' at ei gilydd. Fe wnaethom hyrwyddo ein cynnyrch misglwyf y gellir eu	Millie (Llywydd Undeb 2025-2026)	Tachwedd 2025

hailddefnyddio a dangos sut mae eu defnyddio. Aethom hefyd i ddiwrnod y Rhuban Gwyn yn y dref i hyrwyddo ein hymgyrch dim esgusodi.		